# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (CYFFORDD 1 I FFIN CYMRU/LLOEGR, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (CYFYNGIAD A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig tra bo gwaith blynyddol i gynnal a chadw'r tir, a gwaith brys, yn cael ei wneud ar Gefnffordd yr A483 (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") rhwng Cyffordd 1 a Ffin Cymru/Lloegr ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiadau a ganlyn, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2014 ac y byddant yn parhau mewn grym, yn ysbeidiol, tan 06:00 o'r gloch ar 19 Rhagfyr 2014 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir i'r gwaith arfaethedig gael ei wneud rhwng 1 Ebrill 2014 a 17 Gorffennaf 2014 a 2 Medi 2014 a 19 Rhagfyr 2014 ond bydd amseroedd a dyddiadau'n amrywio o safle i safle.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:-

i) gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

ii) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys a cherbydau'r gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Caiff hwn ei gynnwys fel cynllun wrth gefn a rhagwelir y bydd y gerbytffordd yn cael ei chau am gyfnodau byr. Ni chynigir unrhyw lwybr amgen;

iii) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys a cherbydau'r gwaith, rhag goddiweddyd pan fydd y terfyn cyflymder dros dro o 40 mya mewn grym, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond ar y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol ac mae'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf.

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

### YR ATODLEN

1. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown).
2. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel).
3. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croesfoel) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun).
4. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).
5. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).
6. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at bwynt 800 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).
7. Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) tua'r gogledd hyd at ffin Cymru/Lloegr.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 1 TO WALES/ENGLAND BORDER, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTION AND PROHIBITIONS) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary whilst annual grounds maintenance and emergency works are undertaken on the A483 Trunk Road (hereinafter referred to as "the trunk road") between Junction 1 and the Wales/England Border in the County Borough of Wrexham.

The following restriction and prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 19:00 hours on 1 April 2014 and remain in force intermittently until 06:00 hours on 19 December 2014 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The proposed works are expected to take place between 1 April 2014 and 17 July 2014 and 2 September 2014 and 19 December 2014 but times and dates will vary from site to site.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:-

i) impose a 40 mph speed limit along the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

ii) prohibit all vehicles, with an exemption for emergency and works vehicles, from proceeding in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. This is included as a contingency and it is envisaged that closures will be for short periods and no alternative route is proposed;

iii) prohibit all vehicles, with an exemption for emergency and works vehicles, from overtaking when the temporary 40 mph speed limit is in force, in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

The proposed Order is only expected to operate during the dates specified above and is valid for a maximum period of 12 months.

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

### SCHEDULE

1. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 1 (Ruabon Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 2 (Johnstown Interchange).
2. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 2 (Johnstown Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 3 (Croesfoel Interchange).
3. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 3 (Croesfoel Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 4 (Ruthin Road Interchange).
4. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 4 (Ruthin Road Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 5 (Mold Road Interchange).
5. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 5 (Mold Road Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 6 (Gresford Interchange).
6. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 6 (Gresford Interchange) to a point 800 metres north of the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange).
7. That length of the trunk road which extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 7 (Rossett Interchange) northbound to the Wales/ England border.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE